Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# CEFNOGI MERCHED ENTREPRENEURAIDD YNG NGHYMRU

## FFORDD YMLAEN I GYMRU

# Cynnwys


**3 Rhagair**

- 3 Ken Skates AC, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
- 5 Helen Walbey, Cadeirydd y Panel Arbenigol
- 5 Robert Lloyd Griffiths OBE, Cadeirydd Bwrdd Strategol Busnes Cymru

**6 Cyflwyniad**

**7 Rhesymeg**

- 7 Adolygiad Llenyddiaeth
- 9 Safbwyntiau Merched sy'n Entrepreneuriaid
- 9 Safbwyntiau Sefydliadau Cefnogi Busnesau

**10 Argymhellion y Panel**

**11 Galw Am Weithredu**

**12 Y Camau Nesaf**

**14 Y Panel**

**15 Y Sefydliadau yr Ymgynghorwyd â Hwy**

**15 Deunydd Cyfeirio**

**16 Geirfa**



OGL © Hawlfraint y Goron / Crown copyright 2019


WG36047

ISBN digidol / Digital ISBN 978-1-78964-604-7 ISBN argraffu / Print ISBN 978-1-78964-617-7

# Rhagair

Fel yr amlinellir yn Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru: Ffyniant i Bawb, rydym eisiau gweld Cymru sy'n hybu twf cynhwysol, yn creu cyfleoedd ac yn trechu anghydraddoldeb, yn ogystal â chreu'r amgylchedd priodol i alluogi entrepreneuriaid a busnesau i ddatblygu a ffynnu. Adlewyrchir yr amcanion hyn yn fanylach yn ein Cynllun Gweithredu Economaidd a'n Nodau Llesiant, a'r angen am gefnogi pobl a busnesau i sbarduno ffyniant.

---

Rwyf eisiau sicrhau ein bod yn hybu'r amcanion hyn ac yn gweithredu'n gadarnhaol i adnabod a cheisio rhoi sylw i'r rhwystrau a wynebir gan unigolion wrth sefydlu a datblygu eu busnesau.

Yn benodol, mewn perthynas ag entrepreneuriaeth benywaidd, mae Panel o arbenigwyr (y Panel), yn unol â chylch gwaith Bwrdd Strategol Busnes Cymru, wedi adolygu'r sefyllfa yng Nghymru. Wrth gynnal yr adolygiad, mae'r Panel wedi mabwysiadu egwyddorion Rhaglen Cyflymu Entrepreneuriaeth Ranbarthol (REAP) Sefydliad Technoleg Massachusetts (MIT).

Yng Nghymru, mae egwyddorion REAP yn cael eu cyflwyno drwy Creu Sbarc ac maent yn allweddol er mwyn sbarduno arloesedd ac entrepreneuriaeth fel y bo modd creu ecosystem gefnogol sy'n weladwy, yn hawdd ei defnyddio, ac sydd â chysylltiadau da. Rwyf yn falch bod y Panel wedi gwneud argymhellion sy'n cyd-fynd yn daclus â'r nod hwn i annog y gymuned cymorth busnes yng Nghymru i ystyried ac i ddiweddaru ei ffyrdd o weithio, gan gynnwys darparu gwasanaethau sydd â gwell ffocws ar y rhywiau.


Mae'r adolygiad hwn yn dangos bod brwdfrydedd eang ledled Cymru, a dyhead i gefnogi merched yn well i gyflawni eu hamcanion busnes. Bydd y dull o weithredu'n ein helpu ni i wneud hyn ac mae'n berthnasol ar draws y gymuned cefnogi busnes, boed yn y sectorau cyhoeddus a phreifat neu wirfoddol.

Hoffwn ddatgan fy niolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r dull hwn o weithredu, yn enwedig aelodau'r Panel sydd wedi rhoi o'u hamser yn wirfoddol er mwyn galluogi i hyn ddigwydd.

Yn olaf, **rwyf yn galw ar yr holl sefydliadau cefnogi busnesau, y sefydliadau ariannol a'r rhanddeiliaid yng Nghymru** i fabwysiadu dull o weithredu â'i ffocws ar y rhywiau ac rwyf yn eich annog i gymryd rhan a dangos eich cefnogaeth drwy wneud y canlynol:

- Defnyddio'r 'Canllaw Arfer Da' cysylltiedig.
- Dangos beth rydych yn ei wneud ar hyn o bryd, a beth fyddwch yn ei wneud, i wella'r gefnogaeth i ferched entrepreneuraidd er enghhraifft, drwy ddangos ymrwymiad ar wefan 'Creu Sparc' – **www.creusbarc.cymru**
- Ymuno yn y sgwrs ar **#merchedbusnescymru**.
- Lledaenu'r gair ac annog eraill i gymryd rhan.

Drwy annog, cefnogi a chynyddu nifer y merched entrepreneuraidd, byddwn yn helpu i greu Cymru sy'n llewyrchus ac yn ddiogel yn economaidd, ac yn gwneud Cymru'n wlad sy'n arwain y ffordd i ferched entrepreneuraidd sefydlu, cynnal a datblygu eu busnesau



**Ken Skates AC**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth





"Gyda partneriaid rheoli benywaidd, a menywod yn oddeutu 50% o'r swyddi arwain yn y cwmni, mae gweithlu gyda chydbwysedd o ran y rhywiau wedi bod yn ganolog i dwf Capital Law. Rydym yn credu bod mwy o gyfraniad ariannol gan fenywod yng Nghymru yn allweddol i Gynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru, ac mae gan fusnesau fel eich un chi ran i'w chwarae er mwyn ceisio dod o hyd i fenywod, eu meithrin, a chefnogi menywod entrepreneuraidd yn lleol."

*Alys Carlton, Partner yn Capital Law*

Fel Cadeirydd y Panel hoffwn ddiolch am y dull o weithredu agored a chydweithredol sydd wedi'i fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu'r prosiect hwn i ddwyn ffrwyth. Ni fyddai wedi bod yn bosibl gwneud hynny heb waith caled, brwdfrydedd ac egni aelodau'r Panel, sydd wedi dangos ymrwymiad cadarn a rhoi llawer o'u hamser i hwyluso hyn.

Pan wnes i ddechrau fy musnes yn y Cymoedd, bedair blynedd ar ddeg yn ôl, roedd y tirlun cefnogi busnes ac economaidd yn wahanol iawn. Mae llawer wedi'i gyflawni yn ystod y blynyddoedd yn y canol ond eto mae llawer mwy i'w wneud i gyflwyno cefnogaeth deilwredig i ferched entrepreneuraidd. Y dull arfaethedig hwn o weithredu yw'r cam nesaf ar y siwrnai honno at sicrhau gwasanaeth cyfartal.

Gan ddefnyddio dihareb Affricanaidd, "*Os ydych chi eisiau mynd yn gyflym, ewch ar eich pen eich hun, ond os ydych chi eisiau mynd yn bell, ewch gyda'ch gilydd*". Rwyf yn galw ar bawb yng Nghymru i ddod at ei gilydd i'n helpu ni i fynd yn bell a chyrraedd ein llawn botensial, gan sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle i sefydlu, cynnal a datblygu busnes yng Nghymru, beth bynnag yw eu cefndir a ble bynnag maent yn byw."



**Helen Walbey**
Cadeirydd y Panel, perchennog busnes a Chadeirydd Polisi Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) ar gyfer Materion Cartref

**"Dyma... gam nesaf y daith honno i ddarparu gwasanaeth cytbwys."**

*Helen Walbey*

Mae gwaith y Panel wedi cael ei wneud gyda chefnogaeth Bwrdd Strategol Busnes Cymru (y Bwrdd), a hoffwn ychwanegu fy ngwerthfawrogiad o'u cyfraniad a'u hymrwymiad.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod y dull cynhwysol o weithredu sydd wedi'i fabwysiadu eisoes gan wasanaeth Busnes Cymru i gefnogi busnesau newydd a sefydledig, ond mae hefyd yn cydnabod bod modd gwneud mwy yng Nghymru i deilwra'r gefnogaeth fusnes i gynnig dull mwy personol o weithredu i gefnogi merched entrepreneuraidd sy'n cael eu tangynrychioli'n gyffredinol o ran perchnogaeth busnes.



Mae'r Bwrdd yn croesawu'r dull o weithredu ac yn annog y gymuned cefnogi busnes i ymwneud â'r egwyddorion ac ymrwymo iddynt, cefnogi merched entrepreneuraidd yn well, a chael effaith gadarnhaol ar yr economi yng Nghymru a fydd o fudd i ni i gyd

**Robert Lloyd Griffiths OBE**
Cadeirydd Bwrdd Strategol Busnes Cymru

# Cyflwyniad

**Ceir tystiolaeth eang o dangynrychiolaeth merched ym myd busnes yn y Deyrnas Unedig (DU), fel perchnogion busnes ac uwch reolwyr. Mae'r bwlch rhwng y rhywiau mewn entrepreneuriaeth yn golygu nad yw merched yn cyflawni eu potensial economaidd llawn ac mae economi Cymru ar ei cholled o ran y cyfraniad mwy fyth y gallent ei wneud gyda chreu swyddi, arloesi a chynnyrch domestig gros (GDP) cynyddol. Yn ogystal â bod yn bwysig ar gyfer creu twf a chyflogaeth, mae entrepreneuriaeth yn cael ei hystyried yn eang fel sail gadarn i annibyniaeth economaidd merched.**

---

Yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r dull o annog agweddau entrepreneuraidd a chefnogaeth fusnes ar gyfer busnesau newydd a busnesau wedi'u sefydlu wedi datblygu i ehangu cyfranogiad pob grŵp demograffig, gan gynnwys merched. Fodd bynnag, mae mwy y gallwn ei wneud o hyd.

Drwy annog, cefnogi a chynyddu cyfranogiad merched mewn entrepreneuriaeth, gallwn gael effaith bositif ar economi Cymru er mwyn hybu cyfleoedd, trechu anghydraddoldeb a chyflawni ffyniant unigol a chenedlaethol.

Fis Mai 2017, sefydlodd Llywodraeth Cymru banel o arbenigwyr i ymgymryd ag adolygiad ar y cyd o'r gefnogaeth sydd ar gael i ferched entrepreneuraidd, ac i ddarparu cyngor ac arweiniad ar sut orau i annog, datblygu a chefnogi merched entrepreneuraidd yma yng Nghymru.

Mae'r Panel yn cynnwys unigolion a sefydliadau o bob rhan o'r sector cyhoeddus a phreifat, a'r trydydd sector a'r sector addysg (gweler tudalen 15 am y rhestr o aelodau'r Panel), ac mae'n gweithio'n agos â Bwrdd Strategol annibynnol Busnes Cymru sydd â chylch gwaith Gweinidogol i oruchwylio a darparu cyfarwyddyd strategol ar gyfer gwasanaeth cefnogi busnesau Llywodraeth Cymru, Busnes Cymru.

Wrth lunio'r cyngor a'r argymhellion, mae'r Panel wedi ystyried corff eang o lenyddiaeth a thystiolaeth, gan gynnwys trafodaethau gyda merched entrepreneuraidd, sefydliadau cefnogi busnesau a rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru.

Mae'r ddogfen hon yn tynnu sylw at y dystiolaeth a'r rhesymeg dros ymyriad, ac yn amlinellu'r dull o weithredu a argymhellir gan y Panel i wella'r gefnogaeth i ferched entrepreneuraidd yng Nghymru.

Mae'r argymhellion yn berthnasol nid yn unig i wasanaethau Llywodraeth Cymru, ond hefyd ar draws y gymuned cefnogi busnes ehangach yng Nghymru. I gynorthwyo gyda gweithredu cyngor y Panel, mae 'Canllaw Arfer Da' ymarferol wedi cael ei greu i gynorthwyo sefydliadau cefnogi busnesau a rhanddeiliaid i fabwysiadu a bwrw ymlaen ag argymhellion y Panel.

Ceir hefyd alw am weithredu, yn amlinellu sut gall sefydliadau a rhanddeiliaid gymryd rhan a dangos eu hymrwymiad i hybu ymhellach ddull â'i ffocws ar y rhywiau o ddarparu eu gwasanaethau.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd, mae'r Panel yn glir bod dyhead a pharodrwydd gwirioneddol ymhlith y gymuned cefnogi busnes i gydweithio ac i wneud Cymru'n wlad sydd o ddifrif am gefnogi merched entrepreneuraidd.

Drwy ymrwymo i'r egwyddorion a amlinellir yn y dull o weithredu, cred y Panel y gall y gymuned cefnogi busnes ddod at ei gilydd i gyflawni uchelgais a rennir o Gymru lewyrchus a chynhwysol lle mae merched entrepreneuraidd yn cael eu cefnogi a'u hannog i gyflawni llwyddiant.

# Rhesymeg

## Adolygiad Llenyddiaeth

**Mae merched sy’n entrepreneuriaid yn cyfrannu’n bwysig at ddatblygiad economaidd ar lefel ryngwladol, cenedlaethol a lleol, gan greu cyflogaeth a photensial am dwf economaidd.**

---

Mae astudiaethau wedi dangos bod mwy o amrywiaeth o ran y rhywiau’n helpu i sbarduno arloesi a datgelu datrysiadau newydd. Gall datblygu entrepreneuriaeth ymhlith merched roi hwb sylweddol sylweddol i’r economi, a gall cynyddu amrywiaeth y rhywiau ar draws yr eco-system busnes, gan fwydo i weithgarwch arloesi, ddarparu hwb economaidd cynnyddrannol i gefnogi tirlun busnes cynhyrchiol a chystadleuol.

Mae Strategaeth Arloesi[1] y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn nodi y gall arloesi fod yn gyfran sylweddol o dwf economaidd yn aml – tua 50% o gyfanswm y twf mewn cynnyrch domestig gros. Os nad oes eco-system fusnes ymwybodol o’r rhywiau’n bodoli, mae merched 20% yn llai tebygol na dynion o gael cefnogaeth i’w syniadau ac, yn y pen draw, mae hynny’n atal twf economaidd.

Mae adroddiad Grŵp Seneddol Hollbleidiol Llywodraeth y DU ar gyfer Entrepreneuriaeth (APPG) ‘Women in Leadership 2018’[2] yn nodi bod 1.2 miliwn o fusnesau bach a chanolig sy’n cael eu harwain gan ferched yn y DU, yn cyfrannu amcangyfrif o £115 biliwn at allbwn economaidd y DU.


Fodd bynnag, ceir corff o ymchwil a dderbynnir yn eang sy’n nodi bod merched yn dal i gael eu tangynrychioli mewn busnes, fel perchnogion busnesau ac uwch reolwyr. Amcangyfrifodd cyhoeddiad Cyngor Busnes Merched y DU, Simple Steps to Unlocking Potential[3] y gallai dod â chyfraddau cymryd rhan economaidd dynion a merched yn gyfartal ychwanegu mwy na 10% at faint yr economi erbyn 2030.

Cefnogir hyn gan adroddiad Llywodraeth y DU, ‘Burt Report: Inclusive Support for Women in Enterprise’[4] sy’n nodi y byddai gwella’r gefnogaeth i “women entrepreneurs would raise employment and help many women to achieve their aspirations”.

Er bod entrepreneuriaeth ymhlith merched wedi bod yn cynyddu yn y DU ers 2009, mae nifer y merched sy’n sefydlu busnes yn is o hyd na gwledydd fel Canada ac UDA, ac mae llai o ferched i’w gweld ymhlith entrepreneuriaid elitaidd.[5]

Er gwaetha’r cynnydd diweddar tuag at entrepreneuriaeth, yn gyffredinol, mae 11.9% o oedolion gwrywaidd y boblogaeth yn ymwneud â gweithgarwch entrepreneuraidd, o gymharu â 5.6% o ferched[6] ac er bod y cyfraddau hirhoedledd ar gyfer busnesau cam cynnar dan arweiniad merched yn y DU wedi bod yn is yn hanesyddol nag ar gyfer dynion, nid oes gwahaniaeth yn awr rhwng y cyfraddau goroesi yn 2017.

**Poblogaeth Oedolion yn y DU yn ymwneud a gweithgarwch entrepreneuraidd**




Ffynhonnell: GEM 2017

Mae gwahaniaethau rhwng y rhywiau, sef addysg, profiad, rhwydweithiau a mynediad i gyfalaf, yn cael effaith ar agwedd dynion a merched at entrepreneuriaeth a sut maent yn ei hymarfer. Fel ymateb i gais yr APPG am dystiolaeth, dywedodd arbenigwyr o’r Women’s Organisation *“women faced difficulties and obstacles in maintaining businesses, including unfavourable business regulations, networking opportunities that favour men, and less access to finance.”*



*Yaina Samuels - NuHi Training Ltd*

**Ni ddylem ystyried merched fel grŵp homogenaidd; fodd bynnag, yn amlach na pheidio, nid yw materion yn ymwneud â dosbarth, hil, oedran ac anabledd yn cael eu hystyried mewn ymchwil i entrepreneuriaid sy'n ferched yn y DU.**

Mae'n bwysig bod gwasanaethau cefnogi busnes yn ymwybodol o faterion rhyngadranoldeb, a sut gall hyn naill ai eithrio merched o wasanaethau neu wneud iddynt deimlo nad yw'r gwasanaeth yn addas ar eu cyfer hwy, heb ddiwallu eu hanghenion. Mae merched yn cynrychioli demograffig mawr a gall targedu gwasanaethau cefnogi busnes gael effaith nodedig a helpu i greu amgylchedd lle gall grwpiau eraill a dangynrychiolir ffynnu hefyd.

Yma yng Nghymru, mae cyfran y busnesau sy'n eiddo i ferched yn 28%, yn agos at lefel y DU o 31%, ond mae hyn wedi parhau'n gyson am rai blynyddoedd.

**Busnesau sy'n eiddo i ferched yng Nghymru**




Mae gwasanaeth Busnes Cymru Llywodraeth Cymru'n denu cyfran uchel o ferched, gyda 46% o ymholiadau am gefnogaeth i sefydlu busnes yn dod gan ferched. Er hynny, mae'r trosi o ymholiad i sefydlu busnes newydd ychydig yn is ar gyfer merched, yn 28% o gymharu â 33% ar gyfer dynion.

Yn 2016, cyhoeddodd Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) ddau adroddiad – 'Women in Enterprise: The Untapped Potential'[7] a 'Going Solo: Understanding Self-Employment'[8]. Mae'r ddau adroddiad yn tynnu sylw at amrywiaeth o faterion yn gysylltiedig â'r heriau mae merched entrepreneuraidd yn eu hwynebu, fel mynediad at gyllid; ofni dyledion; sicrhau cydbwysedd rhwng ymrwymiadau gwaith a theuluol; cysoni cyfrifoldebau gofalu a gofynion gwaith; a diffyg gofal plant fforddiadwy ac argaeleddd gofal plant.

Mae'r adroddiadau uchod yn dangos yn glir bod merched yn wynebu nifer o rwystrau wrth geisio sefydlu a chynnal busnes. Gallant wynebu anfantais yng nghamau cynnar y datblygiad oherwydd problemau fel diffyg cyfalaf a pholisi dall i rywiau mewn cefnogaeth fusnes. Gall normau diwylliannol a stereoteipio rhywiau mewn cymdeithas wneud merched yn llai hyderus yn eu galluoedd fel perchnogion busnes.

Mae'r dystiolaeth yn glir, mae datblygu a chefnogi merched entrepreneuraidd yn bwysig i ffyniant busnes ac economaidd cyffredinol. Drwy fabwysiadu dull o weithredu â'i ffocws ar y rhywiau a thargedu gweithgareddau i gefnogi merched entrepreneuraidd, gallwn helpu i ddatgloi potensial economaidd ac unigol llawn.

## Safbwyntiau Merched sy'n Entrepreneuriaid

Fel rhan o'r adolygiad, comisiynodd y Panel Brifysgol De Cymru i gynnal astudiaeth fechan gyda merched a sefydliadau cefnogi busnesau. Nod yr astudiaeth hon oedd sefydlu'r rhwystrau a'r heriau mae merched sy'n entrepreneuriaid yn eu profi ar hyn o bryd, yn ogystal â phenderfynu ar y safbwyntiau cyfredol a thirlun y ddarpariaeth cefnogi busnes yng Nghymru.

Casglwyd safbwyntiau merched sy'n entrepreneuriaid drwy gyfrwng arolwg ar-lein a gwblhawyd gan fwy na 100 o ferched (y rheini sy'n ystyried sefydlu busnes a'r rheini eisoes mewn busnes) ac ategwyd yr arolwg hwnnw drwy gynnal tri grŵp ffocws manwl. Cynhaliwyd dau yn y De ac un yn y Gogledd, i gadarnhau pa rwystrau a heriau sy'n wynebu menywod sy'n entrepreneuriaid yng Nghymru.

Lluniodd yr astudiaeth y casgliadau canlynol am safbwyntiau merched sy'n entrepreneuriaid:

- Ceir diffyg mentoriaid busnes priodol i gefnogi cyfnodau datblygu a thwf busnes. Roeddent yn dweud bod y broses o gyfateb mentor i unigolyn i gael ei fentora'n hollbwysig.
- Credir fod ffocws cefnogaeth fusnes a gyllidir ag arian cyhoeddus, ar adegau, yn canolbwyntio ar y darparwr yn hytrach na rhoi lle canolog i'r person; yn adweithiol yn hytrach na chadarnhaol; ac yn seiliedig ar oriau swyddfa ac wedi'i lleoli mewn swyddfa, yn hytrach na bod yn symudol ac yn hyblyg.
- Ceir pryderon mewn perthynas â rhoi sylw i rwystrau personol, fel heriau ymarferol a chymdeithasol; materion perthnasol i ofal plant, cydbwysedd/ gwrthdaro bywyd-gwaith; ac i rai, diffyg hyder.
- Mae merched yn credu bod ganddynt ddiffyg cysylltiadau busnes perthnasol, yn enwedig yn y cyfnodau cyn sefydlu ac wrth sefydlu busnes.
- Mae ofn methiant yn amlycach yn y cyfnodau cyn sefydlu ac wrth sefydlu, gydag ofn llwyddiant yn fwy cyffredin yn y cyfnodau datblygu a thwf mewn busnes.
- Ceir diffyg cred yn eu sgiliau busnes eu hunain (h.y. merched entrepreneuraidd).
- Ceir diffyg ymddangosiadol o ran argaeledd a mynediad at gyllid ym mhob cam wrth sefydlu a datblygu busnes.

## Safbwyntiau Sefydliadau Cefnogi Busnesau

Roedd yr astudiaeth cefnogi busnes yn cynnwys dau grŵp ffocws a chyfweliadau dilynol dros y ffôn gyda 23 o randdeiliaid cefnogi busnesau ledled Cymru.

Daeth yr astudiaeth hon i'r casgliad bod safbwyntiau'r sefydliadau cymorth busnes yr ymgynghorwyd â hwy yn wahanol i safbwyntiau'r menywod sy'n entrepreneuriaid mewn llond dwrn o feysydd allweddol. Dyma rai ohonynt:

- Nid yw darparwyr o'r farn bod argaeledd a mynediad at gyllid yn gymaint o broblem ag y mae merched sy'n entrepreneuriaid yn ei feddwl.
- Nid yw darparwyr o'r farn bod materion sy'n gysylltiedig â rhywedd a materion diwylliannol a sefydliadol yn rhwystrau mor sylweddol ag y mae merched sy'n entrepreneuriaid yn ei feddwl.

Cyfarfu'r Panel hefyd â nifer o sefydliadau o'r sector cyllid a oedd yn rhan o'i broses ymgynghori, a chafodd ei galonogi gan y parodrwydd i ymateb i'r materion a godwyd. Roedd y sefydliadau hynny a gynrychiolwyd yn cydnabod yr angen i deilwra gwasanaethau ymhellach ac yn cefnogi'r dull o weithredu a argymhellwyd gan y Panel.

---

**"Rwy'n galw ar bob sefydliad sy'n cefnogi busnesau, sefydliadau ariannol a rhanddeiliaid yng Nghymru i fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio mwy ar rywedd."**

*Ken Skates AC, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth*

# Argymhellion y Panel

**Daw'r Panel i'r casgliad bod tystiolaeth glir sy'n tynnu sylw at y manteision a fyddai'n gysylltiedig â mireinio gwasanaethau cymorth busnes y sector cyhoeddus a phreifat fel eu bod yn rhoi mwy o ffocws ar y rhywiau wrth weithredu.**

---

Mae hefyd yn amlwg bod arferion da i'w gweld ledled Cymru. Fodd bynnag, mae mwy y gellir ei wneud i dargedu a gweithio'n fwy effeithiol gyda merched sy'n entrepreneuriaid, ac i deilwra a hyrwyddo gwasanaethau cymorth er mwyn diwallu eu hanghenion yn well.

Gellir cymryd camau syml, fel gwella'r trafod gyda merched entrepreneuraidd sydd eisiau sefydlu, cynnal neu ddatblygu eu busnesau, yn ogystal â'u cysylltu â'r gefnogaeth sydd ar gael, ac â'i gilydd.

Mae'r Panel wedi gwneud deg argymhelliad i helpu i drechu anghydraddoldeb a sicrhau bod anghenion merched entrepreneuraidd yng Nghymru'n cael eu diwallu'n llawn. Nod yr argymhellion yw adeiladu ar gryfderau presennol y gwasanaethau cefnogi busnes yng Nghymru a chreu dull o weithredu â'i ffocws ar y rhywiau y gall y gymuned cefnogi busnes ei fabwysiadu'n hwylus. Dyma'r deg argymhelliad:

**1**

Gwella'r ymgysylltu a darpar merched entrepreneuriaidd er mwyn deall yn well y rhwystrau sy'n atal eu cyfranogiad mewn gweithgarwch sefydlu busnes.

**2**

Teilwra gwasanaethau cefnogi busnesau ymhellach i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r rhywiau ac yn diwallu anghenion penodol merched entrepreneuraidd, gan gydnabod eu nodweddion, eu diwylliant a'u hamgylchiadau gwahanol.

**3**

Cynyddu argaeledd cynghorwyr a mentoriaid busnes sy'n ferched busnes a sicrhau bod merched yn ymwybodol o'r dewis o wasanaeth sydd ar gael iddynt.

**4**

Gwella'r wybodaeth am argaeledd cyllid i ferched entrepreneuraidd, a sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiadau diangen ar ddyfarnu cyllid.

**5**

Cydnabod a hybu llwyddiant merched entrepreneuraidd fel modelau rôl i eraill.

**6**

Gwella mynediad i ffynonellau gwybodaeth cefnogi busnes ac annog rhwydweithio rhwng merched entrepreneuraidd a'r gymuned fusnes ehangach.

**7**

Datblygu canllaw arfer da ac annog sefydliadau cefnogi busnesau i'w fabwysiadu.

**8**

Darparu cefnogaeth fusnes ymarferol cyn sefydlu busnes sy'n annog ac yn cefnogi merched i feithrin eu hunanhyder.

**9**

Parhau i weithio gyda merched ifanc i hybu a datblygu agweddau entrepreneuraidd.

**10**

Sicrhau bod gwobrau busnes yng Nghymru'n mynd ati i annog cydnabyddiaeth i ferched entrepreneuraidd a sicrhau sefydlu panel cytbwys o ran y rhywiau a meini prawf barnu â'u ffocws ar y rhywiau.

# Galw Am Weithredu

## Drwy fabwysiadu ffordd o weithio sy'n rhoi ffocws ar y rhywiau, a bwrw ymlaen â'r argymhellion, bydd y gymuned cymorth busnes yn dangos ei bod yn cydnabod pwysigrwydd merched sy'n entrepreneuriaid a'u cyfraniad economaidd.

I helpu'r gymuned cefnogi busnes i fabwysiadu dull â'i ffocws ar y rhywiau o weithredu, mae Canllaw Arfer Da (y Canllaw) wedi cael ei lunio. Dylid darllen y Canllaw ochr yn ochr â'r dull o weithredu i helpu i wella'r gefnogaeth fusnes sydd ar gael i ferched sydd naill ai ym myd busnes neu'n ystyried sefydlu busnes.

Mae'r Canllaw wedi'i strwythuro o dan saith thema ac mae'r rhain yn darparu crynodeb strategol ar gyfer datblygu arferion i roi cefnogaeth bellach i ferched entrepreneuraidd yng Nghymru. O dan y themâu, mae'r Canllaw'n esbonio pwysigrwydd datblygu arfer da ac yn awgrymu cynghorion ymarferol ar gyfer cyflawni.

Dyma'r themâu yn y canllaw hwn:

- Cyngor a Gwybodaeth Busnes
- Cael Gafael ar Gyllid
- Mentora
- Rhwydweithio
- Gwobrau a Digwyddiadau Busnes
- Unedau Deori, Lleoliadau Gweithio Ar Y Cyd a Chanolfannau Busnes
- Monitro'r Ddarpariaeth Ymarferol

Mae'r Panel yn awr yn galw ar yr holl sefydliadau cefnogi busnesau a rhanddeiliaid yng Nghymru i ymrwymo i gefnogi gweithgareddau a mentrau sy'n hybu'r dull hwn o weithredu ledled Cymru. Mae'n hawdd cymryd rhan a dangos cefnogaeth i'r dull hwn o weithredu drwy ddilyn y pedwar cam syml yma:

1. Defnyddio'r 'Canllaw Arfer Da' cysylltiedig. businesswales.gov.wales/cy/cefnogi-merched-yng-nghymru

2. Gwneud ymrwymiad cyhoeddus ar wefan 'Creu Sbarc' i ddangos beth yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd, a beth fyddwch yn ei wneud, i wella'r gefnogaeth i ferched sy'n entrepreneuriaid. www.creusbarc.cymru

3. Ymuno yn y sgwrs ar #merchedbusnescymru.

4. Lledaenu'r gair ac annog eraill i gymryd rhan.

# Y Camau Nesaf



*Alison Lea Wilson - Halen Mon*

**1**

Busnes Cymru i ystyried yn llawn y deg argymhelliad a chyhoeddi cynllun gweithredu i ddangos ei ymrwymiad i gefnogi merched entrepreneuraidd. Bydd y cynllun gweithredu hwn yn amlinellu beth mae Gwasanaeth Busnes Cymru Llywodraeth Cymru'n bwriadu ei wneud ac erbyn pryd. Dylid monitro'r cynnydd ac adolygu'r cynllun gweithredu yn flynyddol a chyhoeddi'r canlyniadau.

**2**

Llywodraeth Cymru'n codi ymwybyddiaeth o'r adolygiad hwn oddi mewn i'r gymuned cefnogi busnes ehangach drwy gynnal cyfres o ddigwyddiadau dosbarthu rhanbarthol.

**3**

Hefyd efallai y bydd y gymuned cefnogi busnes ehangach yn dymuno datblygu cynllun gweithredu i fabwysiadu'r dull hwn o weithredu.

**4**

Mae'r Panel wedi gofyn hefyd i Lywodraeth Cymru sefydlu grŵp adolygu a fydd yn adrodd yn ôl i Fwrdd Strategol Busnes Cymru ar y cynnydd gyda rhoi'r cynllun gweithredu hwn ar waith. Bydd hyn wedyn yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n parhau i adolygu ei wasanaeth a llwyddiant merched entrepreneuraidd yng Nghymru.

# Casgliad

I gloi, mae'r dystiolaeth sydd wedi'i chasglu'n rhy gadarn i'w hanwybyddu, a rhaid i'r gefnogaeth fusnes yng Nghymru fod yn fwy ymatebol ac yn gwbl gynhwysol os ydym am ddatgloi'r potensial llawn ar lefel unigol ac economaidd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydnabod cyfraniad merched entrepreneuraidd yng Nghymru a bydd yn parhau i wrando ar safbwyntiau a phrofiadau merched wrth sefydlu, cynnal neu ddatblygu eu busnes yng Nghymru.

Drwy lunio cynllun gweithredu fel ymateb i ddeg argymhelliad y Panel, bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i dargedu a gweithio'n fwy effeithiol gyda merched entrepreneuraidd ac yn teilwra ein gwasanaethau cefnogi busnes i ddiwallu eu hanghenion.

Byddwn yn parhau i drafod â sefydliadau cefnogi busnesau eraill i wneud Cymru'n wlad sydd o ddifrif am gefnogi merched entrepreneuraidd ac rydym yn annog eraill yn y byd cefnogi busnes i wneud yr un peth ac ymuno â ni i wneud Cymru'n lle llewyrchus, diogel a theg i fyw ynddo, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



**"Yr hyn sy'n ganolog i lwyddiant ein heconomi a'r ymgyrch i hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch yw yr angen i hyrwyddo a datblygu entrepreneuriaeth fenywaidd yng Nghymru. Dyma pam mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn falch iawn bod Llywodraeth Cymru wedi dewis casglu ynghyd ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys y Ffederasiwn Busnesau Bach, i edrych ar y camau ymarferol sydd eu hangen er mwyn cyflawni hyn.**

**Mae hyn yn adeiladu ar yr agenda a amlinellwyd yn adroddiad y Ffederasiwn Busnesau Bach yn 2016 ar Fentergarwch Menywod. Mae'n bwysig nawr fod pawb ym myd busnes, a'r rhai sy'n cefnogi busnesau, a thu allan i'r maes yn ystyried yr argymhellion yn adroddiad Llywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo cyfleoedd i fenywod ledled Cymru a datblygu ein heconomi."**

*Ben Cottam, Pennaeth Materion Allanol, Ffederasiwn Busnesau Bach, Cymru*

# Y Panel

**Helen Walbey**
Cadeirydd, Y Panel Arbenigol; Rheolwr Gyfarwyddwr, Recycle Scooters; Cadeirydd Polisi Cenedlaethol Materion Cartref, Ffederasiwn y Busnesau Bach

**Alys Carlton**
Partner, Capital Law

**Ben Cottam**
Pennaeth Materion Allanol, Ffederasiwn y Busnesau Bach Cymru; ac aelod o Fwrdd Strategol Busnes Cymru

**Bronwen Raine**
Gwasanaeth Mentora Busnes Cymru

**Caroline Challoner**
Syniadau Mawr Cymru

**Caroline Thompson**
Prif Weithredwr, Creu Sbarc

**Cerys Furlong**
**Natasha Davies a Hade Turkmen**
Chwarae Teg

**Christine Atkinson**
Pennaeth yr Hwb Entrepreneuriaeth Merched, Prifysgol De Cymru

**Ellie Fry**
Cyfarwyddwr Strategol, Siambr Fasnach De a Chanolbarth Cymru

**Katharine Notley**
Busnes Cymru, Rhaglen Cyflymu Twf

**Laura Moulding a Sarah Roberts**
Busnes Cymru

**Mabs Noor**
Ysgrifennydd Cyffredinol, Siambr Fasnach Cymru Bangladesh

**Yr Athro Tim Edwards**
Ysgol Fusnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd

**Ruth Lloyd Williams**
Cyfarwyddwr, Network She

**Sian Price**
Rheolwr Tîm Strategaeth, Banc Datblygu Cymru

**Shazia Awan-Scully**
Shoot from the Hip Media

**Brace Griffiths**
Tîm Polisi Entrepreneuriaeth, Llywodraeth Cymru

**Cerris Dearsley-Hopkins**
Tîm Polisi Entrepreneuriaeth, Llywodraeth Cymru

**Zara Williams**
Tîm Polisi Entrepreneuriaeth, Llywodraeth Cymru

**Carys Roberts**
Busnes Cymru
Tîm Entrepreneuriaeth Ieuenctid, Llywodraeth Cymru

# Y Sefydliadau yr Ymgynghorwyd â Hwy

- Barclays
- Creu Sbarc
- Syniadau Mawr Cymru
- Busnes yn y Gymuned Cymru
- Busnes Cymru
- Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru
- Capital Law
- Ysgol Fusnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd
- Chwarae Teg
- Deloitte
- Banc Datblygu Cymru
- Enterprise Europe Network
- Full Circle Education Solutions
- Ffederasiwn y Busnesau Bach
- Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Gambit Corporate Finance LLP
- Grant Thornton LLP
- Banc Hodge
- HSBC
- Irdium Corporate Services Cyfyngedig
- Banc Lloyds
- Parc Gwyddoniaeth Menai (MSparc).
- MHA Broomfield Alexander
- NatWest
- Network She
- Banc Brenhinol yr Alban (RBS)
- Santander UK.
- Shoot from the Hip
- Siambr Fasnach De Cymru
- Banc Triodos
- Ymddiriedolaeth y Tywysog
- Thin Cats
- Prifysgol De Cymru
- Cyngor Bro Morgannwg
- Siambr Fasnach Cymru Bangladesh
- Canolfan Cydweithredol Cymru
- Women's Enterprise Scotland

---

# Deunydd cyfeirio


1 OECD Strategaeth Arloesi'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economiadd: Getting a Head Start on Tomorrow

2 APPG for Entrepreneurship. Women in Leadership, 2018

3 Cyngor Busnes Merched y DU: Maximising Women's Contribution to Future Economic Growth. 2017

4 Burt; L. The Burt report: Inclusive Support for Women in Enterprise, 2015

5 Prifysgol Aston. Surge in female start-ups narrows 'enterprise gap', 2017

6 Monitor Entrepreneuriaeth Fyd-eang (GEM) 2017

7 Ffederasiwn y Busnesau Bach. Women in Enterprise: The Untapped Potential, 2016

8 Ffederasiwn y Busnesau Bach: Understanding Self-Employment, 2017

# Geirfa

## Creu Sbarc

Sefydlwyd Creu Sbarc yn dilyn cyfranogiad Cymru yn Rhaglen Cyflymu  Entrepreneuriaeth Ranbarthol Sefydliad Technoleg Massachusetts. Mae Creu Sbarc yn gweithio ar draws pum grŵp craidd o randdeiliaid - academia, busnes corfforaethol, entrepreneuriaid, y llywodraeth a chyfalaf risg – i ysgogi'r arloesi a sbardunir gan yr eco-system entrepreneuraidd yng Nghymru, gyda'r bwriad o greu mwy o swyddi a rhoi hwb i economi Cymru. Mae'r model wedi'i seilio ar ymgysylltu ac unioni rhwng y grwpiau o randdeiliaid.

## Busnes Cymru

Busnes Cymru yw gwasanaeth cefnogi busnesau dwyieithog Llywodraeth Cymru. Mae'n darparu mynediad i amrywiaeth o gefnogaeth fusnes yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector ar gyfer micro-fusnesau, busnesau bach a chanolig, mentrau cymdeithasol, a'r rhai sy'n ystyried sefydlu busnes.

## Bwrdd Strategol Busnes Cymru

Mae Bwrdd Strategol Busnes Cymru (y Bwrdd) yn monitro darpariaeth ac effaith Busnes Cymru er mwyn sicrhau gwelliant parhaus gyda ffocws ar ansawdd. Mae'r Bwrdd yn annibynnol ar y Llywodraeth ac mae ei aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned fusnes, cyrff diwydiant ac academia. Mae'r Bwrdd yn darparu cyngor ar ddarpariaeth a chyfeiriad Busnes Cymru, drwy sicrhau bod anghenion entrepreneuriaid, gan gynnwys entrepreneuriaid ifanc ac entrepreneuriaid cymdeithasol, micro-fusnesau a busnesau bach a chanolig, yn cael eu hystyried.

## Ymwybyddiaeth o'r Rhywiau

Mae dull ymwybodol o'r rhywiau'n ystyried unrhyw rwystrau sy'n atal cyfranogiad neu ddefnydd o wasanaeth penodol gan ferched (neu ddynion) ac yn addasu yn unol â hynny er mwyn sicrhau canlyniad cadarnhaol. Yn achos darpariaeth cefnogi busnes, mae hyn yn gofyn am ddealltwriaeth a gwybodaeth am faterion allweddol i fusnesau sy'n cael eu harwain gan ferched ac sy'n eiddo i ferched.

## Dall i'r rhywiau

Nid yw prosiectau, rhaglenni, polisiau nac agweddau dall i'r rhywiau'n ystyried swyddogaethau ac anghenion amrywiol merched a dynion ac maent yn methu cydnabod bod swyddogaethau a chyfrifoldebau merched/genethod a dynion/bechgyn yn cael eu neilltuo iddynt, neu eu gorfodi arnynt, mewn cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd a gwleidyddol penodol. Felly maent yn cynnal y drefn fel y mae ac ni fyddant yn helpu i drawsnewid strwythur anghyfartal o ran cysylltiadau'r rhywiau.

## Lens y Rhywiau

Mae lens y rhywiau'n ddull a ddefnyddir i asesu a yw deunyddiau (cyrsiau ar-lein, marchnata ac ati) a'r ddarpariaeth o gyrsiau yr un mor hygyrch a/neu apelgar i ddynion a merched, heb fod yn ystrydebol o rhan y rhywiau, neu'n wahaniaethol.

## Monitro Entrepreneuriaeth Fyd-eang

Mae'r Monitor Entrepreneuriaeth Fyd-eang (GEM) yn astudiaeth fyd-eang a gydnabyddir yn rhyngwladol o entrepreneuriaeth. Mae'r wybodaeth a ddarperir gan y GEM yn galluogi dealltwriaeth gadarn o'r amgylchedd ar gyfer entrepreneuriaeth ac mae'n darparu manylion gwerthfawr. Mae amrywiaeth eang o sefydliadau'n defnyddio data'r GEM i hybu polisïau seiliedig ar dystiolaeth tuag at entrepreneuriaeth ym mhob cwr o'r byd.

## Rhyngadranoldeb

Mae rhyngadranoldeb yn fframwaith dadansoddol sy'n ceisio adnabod sut mae systemau pŵer yn rhyng-gloi'n effeithio ar y rhai sydd fwyaf ar y cyrion mewn cymdeithas. Mae rhyngadranoldeb yn ystyried nad yw ffurfiau amrywiol ar haenau cymdeithasol, fel dosbarth, hil, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, anabledd a rhyw, yn bodoli ar wahân i'w gilydd, ond wedi'u rhyngblethu â'i gilydd.

## Cyfanswm y gweithgarwch entrepreneuraidd cam

Dyma gyfradd yr unigolion yn y boblogaeth oedran gweithio sy'n ymwneud a sefydlu busnesau, naill ai yng ngham dechrau cwmni newydd (entrepreneuriaid cychwynnol), neu yn y cam sy'n rhychwantu 42 mis ar ol sefydlu'r cwmni (rheolwrberchennog cwmniau newydd).